**Ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE**

**Dyddiad** – Dydd Mercher 22 Mehefin 2022
**Teitl** – Trefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE

## Trosolwg

- Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid am drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE.

- Ymrwymodd maniffesto etholiad 2019 Llywodraeth y DU i ddisodli a "man lleiaf ddarparu yr un faint o gyllid" ag a ddarparwyd ynghynt gan yr UE ar gyfer pob gwlad yn y DU. Mae wedi methu â chyflawni'r ymrwymiad hwn sydd wedi'i ailadrodd yn aml, gan anwybyddu'r setliad datganoli yn fwriadol ar yr un pryd.

- I bob pwrpas, mae dull gweithredu Llywodraeth y DU yn cymryd arian oddi ar feysydd datganoledig y mae'r Senedd wedi bod yn gyfrifol am benderfynu arnynt, yn y pen draw, ers dechrau datganoli.

- Mae Llywodraeth y DU wedi methu â negodi mynediad parhaus i raglenni cyllido'r UE, fel Horizon Ewrop.

## Collid Cyllid yr UE gwerth £1bn

1. Ar 4 Mai 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig[1] yn nodi'r cyllid y byddai Cymru yn ei golli o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli Cyllid yr UE.

2. I grynhoi, dyrannwyd £2.1bn i Gymru ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yr UE 2014-2020. Byddai'r rhain wedi bod yn werth £1.404bn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025, gan ystyried chwyddiant a chyfraddau cyfnewid yn yr un modd ag y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud wrth gyfrifo faint o gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a gaiff ei ddyrannu i Gymru.

3. Byddai'r cyllid hwn wedi bod yn ychwanegol at daliadau sy'n parhau i gael eu gwneud o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu prosiectau mewn blynyddoedd blaenorol o dan raglenni 2014-2020.

4. Ar 13 Ebrill 2022, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd Cymru yn cael £585m drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cynnwys £101m sy'n cael ei frigdorri gan Lywodraeth y DU er mwyn cefnogi rhaglen rhifedd i oedolion o'r enw Multiply.

[1] Datganiad Ysgrifenedig Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE (4 Mai 2022) | LLYW.CYMRU

5. Ynghyd â'r £47m o gynllun peilot Cronfa Adfywio Cymunedol 2021-22, bydd Cymru yn cael £632m yn lle cyllid yr UE yn ystod y cyfnod, sef diffyg o £772m.

6. Ar ben hyn, mae Llywodraeth y DU, wrth ddarparu cyllid ar gyfer ffermydd i ddisodli cyllid yr UE, yn didynnu taliadau'r UE sy'n ddyledus i Gymru ar gyfer gwaith a oedd yn rhan o raglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae hyn yn golygu bod cymunedau gwledig yng Nghymru £243m ar eu colled na phe baem wedi aros yn yr UE.

7. Gyda'i gilydd, mae'r golled o £243m mewn cyllid gwledig a'r diffyg o £772m yng nghronfeydd strwythurol yr UE yn cyfateb i ychydig dros £1bn. O gymhwyso'r un addasiad chwyddiant at gyllid gwledig ag a gymhwyswyd at y cronfeydd strwythurol, mae'r diffyg cyffredinol i gyllideb Cymru yn fwy nag £1.1bn.

8. Mae cael llai o lais dros lai o arian yn golygu y bydd penderfyniadau anodd yn wynebu Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill mewn busnes, addysg uwch ac addysg bellach, a’r trydydd sector sydd wedi defnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi i gefnogi buddsoddiadau hanfodol mewn ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd mewn busnes, sgiliau, cyflogadwyedd, di-garbon, cymunedau cynaliadwy, seilwaith a chysylltedd, a chymorth i bobl sy'n agored i niwed. Mae’r sectorau hyn eisoes wedi codi pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y bylchau ariannu y maent yn eu hwynebu o ganlyniad i gamau gweithredu Llywodraeth y DU.

9. Nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried y cyllid y bydd Cymru yn ei golli drwy beidio â gallu manteisio ar raglenni cyllido eraill yr UE, gan gynnwys Erasmus, Horizon, a Chydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, nad ydynt wedi cael eu disodli'n llawn gan Lywodraeth y DU.

**Cronfa Adfywio Cymunedol a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU**

10. Cyhoeddwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gyntaf yn 2017. Ni chyfrannodd Llywodraeth Cymru at gynllun peilot Cronfa Adfywio Cymunedol 2021-22 Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac nid oedd ganddi unrhyw rôl i'w chwarae yn y cynllun peilot hwnnw. Dim ond ar ddechrau mis Ebrill 2022, cyn i brosbectws y Gronfa gael ei gyhoeddi ar 13 Ebrill, cyn dechrau'r cyfnod cyn etholiadau llywodraeth leol, y cynigiwyd cyfle inni drafod a negodi blaenoriaethau a strwythurau llywodraethu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin mewn ffordd ystyrlon.

11. Er gwaethaf yr amserlen anymarferol hon, ceisiwyd creu dull partneriaeth o ymdrin â'r Gronfa a oedd yn parchu'r setliad datganoli ac yn cyd-fynd â dymuniadau pobl a sefydliadau yng Nghymru o ran sut y dylid buddsoddi a darparu cyllid ar ôl yr UE a nodir yn *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol*, a ddatblygwyd gyda phartneriaid yng Nghymru a'r OECD, ac a ategwyd gan ymgynghoriad cyhoeddus[2].

12. Er inni wneud rhywfaint o gynnydd o ran blaenoriaethau buddsoddi, ni fu'n bosibl inni ffurfio partneriaeth â Llywodraeth y DU am y rhesymau canlynol:

---

[2] Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru: fframwaith | LLYW.CYMRU

- mae'r **fformiwla gyllido** yn ailgyfeirio cyllid i ffwrdd o'r ardaloedd hynny lle y ceir y lefelau uchaf o dlodi;
- nid yw **rôl Llywodraeth Cymru** yn cynnwys swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar y cyd gwirioneddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl a pharchu datganoli yng Nghymru;
- mae pecyn ariannu Cymru dros **£1bn** yn llai na'r hyn y byddem wedi disgwyl ei gael drwy'r UE rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025.

13. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi cryn bwysau ar gyrff llywodraeth leol drwy eu gwneud yn weinyddwyr ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gyda'r cyfrifoldeb am reoli disgwyliadau sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector AU/AB, y sector preifat a'r trydydd sector, sy'n wedi cael budd sylweddol o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE ac sydd oll yn ceisio cyllid i ddisodli cyllid yr UE o gronfa lai o lawer.

14. Gellid bod wedi osgoi hyn petai Llywodraeth y DU wedi parchu’r gwaith dwys a wnaed yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i greu'r model cryfaf posibl ar gyfer buddsoddi rhanbarthol ar ôl gadael yr UE yng Nghymru, ac wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru reoli'r cyllid hwn drwy'r *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, a oedd yn cynnwys rhywfaint o gyllid ac ymreolaeth ddatganoledig i lywodraeth leol.

15. Mae cynllun rhifedd Multiply sy'n rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn enghraifft arall o dresmasu ar faes polisi datganoledig a fydd yn gwrthdaro â darpariaeth bresennol yng Nghymru ac yn ei dyblygu. At hynny, er bod Llywodraeth y DU yn defnyddio'r gronfa hon i gefnogi ei chynlluniau ei hun sy'n cwmpasu'r DU gyfan, mae'n atal Llywodraeth Cymru rhag gallu ariannu cynlluniau i Gymru gyfan – er bod cyllid yr UE yn cefnogi nifer o raglenni busnes a sgiliau hanfodol i Gymru gyfan.

16. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod Llywodraeth y DU yn darparu cyllid mewn meysydd datganoledig heb unrhyw fewnbwn gan Lywodraeth Cymru i'w chynlluniau, heb fawr ddim ymgysylltu â rhanddeiliaid, heb unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a heb ystyried y dirwedd economaidd unigryw sydd wedi'i ffurfio yng Nghymru dros yr 20 mlynedd ers datganoli.

17. Nid yn unig y mae hyn yn gyfansoddiadol amhriodol, mae hefyd yn peri risg na sicrheir y gwerth gorau am arian ar gyfer gwariant cyhoeddus prin os bydd Llywodraeth y DU yn dyrannu cyllid heb ymgysylltu'n briodol â Llywodraeth Cymru nac alinio â'r strategaethau economaidd allweddol rydym wedi'u datblygu gyda'n partneriaid.

18. Ein bwriad bellach yw cefnogi llywodraeth leol drwy strwythurau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gwaith gyda rhanddeiliaid i liniaru, gymaint â phosibl, y problemau y maent eu hwynebu o ganlyniad i gamau gweithredu Llywodraeth y DU a manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael er budd ein busnesau, ein pobl a'n cymunedau ledled Cymru.

*Mecanweithiau a strwythurau*

19. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynlluniau buddsoddi ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n cynnwys manylion strwythurau partneriaethau, ymyriadau a chanlyniadau rhanbarthol, a rhyw syniad o'r prosiectau y maent yn ceisio cyllid ar eu cyfer. Rhaid i'r cynlluniau buddsoddi gael eu cyflwyno rhwng 30 Mehefin a 1 Awst. Wedyn, cânt eu hasesu gan weision sifil y DU a phenderfynir arnynt gan Weinidogion yn Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau y DU.

20. Mae'n ofynnol i lywodraeth leol gynnull partneriaeth leol wrth ddatblygu a chyflawni eu cynlluniau buddsoddi. Mae Llywodraeth y DU yn mynnu bod y partneriaethau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sectorau, yn ogystal ag ASau. Nid yw'n ofynnol cynnwys Aelodau o'r Senedd.

21. Mae Llywodraeth y DU yn mynnu bod unrhyw danwariant yn cael ei ddychwelyd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, sy'n wahanol i'r ffordd roedd rhaglenni cyllido amlflwyddyn yr UE yn cael eu gweinyddu.

22. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi ei phrosesau gwerthuso ar gyfer y Gronfa eto.

***Y Gronfa Ffyniant Bro***

23. Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cymorth ariannol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU i wneud penderfyniadau gwario yn uniongyrchol mewn meysydd datganoledig drwy anwybyddu Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Un enghraifft o hyn yw Cronfa Ffyniant Bro y DU. Nid yw'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli cyllid yr UE yn uniongyrchol ond mae'n gweithredu yn y lle y mae cronfeydd yr UE wedi'i feddiannu'n flaenorol.

24. I bob pwrpas, mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli Cronfa Trefi Lloegr. Fe'i cyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant y DU ym mis Tachwedd 2020 fel mesur yn Lloegr y byddai Llywodraeth Cymru yn cael swm canlyniadol o dan Fformiwla Barnett ohono. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno'r Gronfa ledled y DU heb unrhyw ymgynghori na chyfathrebu ymlaen llaw. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi chwarae unrhyw ran yn y gwaith o'i datblygu na'i chyflwyno.

25. Lansiwyd y cylch cyllido cyntaf ym mis Mawrth 2021, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2021. Yn y cylch cyntaf, sicrhaodd chwe awdurdod lleol yng Nghymru (Rhondda Cynon Taf, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Wrecsam) gyllid ar gyfer 10 cais gwerth cyfanswm o £121m. Roedd ceisiadau aflwyddiannus yng Nghymru yn werth £172m.

26. Agorodd yr ail gylch ar 23 Mawrth 2022 a'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau oedd 6 Gorffennaf 2022.

**Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020**

27. Mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno rhaglenni ERDF ac ESF wedi'i ddirprwyo'n llwyr i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sy'n rheoli'r cronfeydd ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r gwaith o gyflwyno'r rhaglenni yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni annibynnol a chyhoeddir papurau ar gyfer y Pwyllgor fel mater o drefn.[3] Mae'r rhaglenni yn rhedeg dros gyfnod o 10 mlynedd ac mae cryn dipyn o hyblygrwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Fel y swyddog dirprwyedig, byddai Prif Weithredwr WEFO yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am raglenni ERDF ac ESF, am fod angen iddynt ddeall y rhaglenni er mwyn i'r wybodaeth amdanynt fod yn ystyrlon.

28. Yn aml mae cryn dipyn o oedi rhwng yr adeg y mae buddiolwr yn mynd i wariant sy'n gymwys i gael cymorth yr UE a'r adeg y cyflwynir cais am y cymorth hwnnw i WEFO. Mae llawer o fuddiolwyr yn wynebu oedi pellach o ganlyniad i anawsterau sy'n ymwneud â phandemig COVID-19. At hynny, mae WEFO yn aml yn caniatáu i fuddiolwyr hawlio arian grant pan fydd ei angen arnynt, yn hytrach nag wedi'i rannu'n gyfartal dros oes y prosiect (a all bara sawl blwyddyn). Roedd y nodwedd hon ar y rhaglen yn un y gofynnodd buddiolwyr dro ar ôl tro iddi gael ei chadw mewn unrhyw drefniadau ariannu i ddisodli cyllid yr UE. Mae'r fframwaith amlflwyddyn hefyd yn golygu mai'r bwriad o'r dechrau oedd y byddai rhai prosiectau mawr iawn yn cael eu cyflawni ar ddiwedd cyfnod y rhaglenni, gan gynnwys prosiectau seilwaith trafnidiaeth ac ynni'r môr.

29. Felly, mae angen i ffigurau ar gyfer unrhyw adeg benodol yn ystod y cyfnod cyflawni 10 mlynedd gael eu deall yng nghyd-destun y rhaglen gyfan. Er enghraifft, bydd y swm a hawliwyd gan WEFO yn ystod y cyfnod rhwng ymadawiad y DU â'r UE a heddiw yn ymwneud â gwariant yr aed iddo gan fuddiolwyr cyn ac yn ystod y cyfnod hwnnw ac nid yw llawer o'r gwariant cymwys yn y cyfnod hwnnw wedi'i ddatgan eto. Yr unig ffordd o gael ffigur blynyddol ystyrlon ar gyfer cyllid yr UE yw cyfrifo'r cyfartaledd dros gyfnod y rhaglenni.

30. Mae WEFO wedi neilltuo gwerth amcangyfrifedig[4] Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer rhaglenni 2014-2020, sef £2.1bn, yn llawn, gan sicrhau cyfanswm buddsoddiad o bron i £4 biliwn.

31. Hyd yma, yn seiliedig ar hawliadau Noddwyr prosiectau am gyllid a gyflwynwyd i WEFO ac a gymeradwywyd ganddi, mae 62% o Gyllid yr UE (£1.3bn) wedi'i wario o dan y rhaglenni hyn, sy'n cymharu'n dda â pherfformiad rhanbarthau eraill yn y DU a'r UE. Mae WEFO wedi rhagori ar holl dargedau gwariant blynyddol ERDF ac ESF a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac mae eisoes wedi cyflawni targedau gwariant pedair rhaglen ar gyfer diwedd blwyddyn galendr 2022. Mae'r Comisiwn yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni annibynnol ac mae'n fodlon ar y cynnydd y mae Cymru wedi'i wneud.

---

[3] Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru | LLYW.CYMRU

[4] Pennir uchafswm cyllid ERDF ac ESF y gellir ei hawlio ar ddechrau cyfnod y rhaglenni mewn Ewros. Mae'n rhaid i WEFO amcangyfrif beth fydd gwerth yr uchafswm hwnnw mewn Sterling wrth i'r rhaglen ddatblygu ac wrth i geisiadau gael eu cyflwyno. Mae WEFO yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o bosibiliadau yn hynny o beth, ond mae'r ffigurau a ddyfynnir yn seiliedig ar y gyfradd gynllunio ffurfiol bresennol, sef €1.17/£.

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig**

32. Mae Llywodraeth y DU, wrth ddarparu cyllid i ddisodli cyllid yr UE, yn didynnu derbyniadau parhaus yr UE sy'n ddyledus i Gymru drwy raglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

33. Mae hyn yn golygu bod cymunedau gwledig yng Nghymru £243m ar eu colled na phe baem wedi aros yn yr UE. Gwnaethom godi pryderon am hyn yn adolygiadau o wariant 2020 a 2021 ond nid yw Llywodraeth y DU wedi newid ei dull gweithredu.

34. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys:
    - £42m a drosglwyddwyd o Golofn 1 PAC i'n Rhaglen Datblygu Gwledig Colofn 2 yn 2020 a anwybyddwyd pan ddarparwyd cyllid i ddisodli taliadau uniongyrchol ym mlwyddyn ariannol 2020-21 a/neu flwyddyn ariannol 2021-22.
    - £95m a dderbyniwyd gan yr UE y mae Llywodraeth y DU wedi'i 'ddebydu' o gyllid i ddisodli cyllid yr UE fel rhan o Adolygiad o Wariant 2020 sy'n effeithio ar flwyddyn ariannol 2021-22.
    - £106m o gyllid wedi'i ddebydu a gadarnhawyd yn Adolygiad o Wariant 2021, sy'n effeithio ar flwyddyn ariannol 2022-23 a blwyddyn ariannol 2023-24.

35. Nododd Adolygiad o Wariant 2021 Llywodraeth y DU gyllid i ddisodli cyllid yr UE hyd at 2024-25:

| Disgrifiad | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid i ddisodli PAC | £242.2m | £252.19m | £315.01 | £337 |
| Diffyg i £337m | £94.8m | £84.81m | £21.99m | £0 |

36. Yn ogystal â'r cyllid i ddisodli cyllid yr UE a gawsom gan Lywodraeth y DU, rydym yn darparu cyllid cyfatebol gwerth o leiaf £77m dros y tair blynedd nesaf. O ystyried y pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru a'r dewisiadau anodd rydym yn eu hwynebu yn sgil hynny, mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir er mwyn helpu i gyflawni ein hamcanion.

37. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn hefyd yn darparu £275m er mwyn helpu ein ffermwyr, ein rheolwyr tir a'n busnesau bwyd i hyrwyddo cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy a chefnogi'r economi wledig ar y ffordd tuag at Gymru sero net, natur bositif.

38. Mae'r cyllid hwn yn ymateb i ddiwedd Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE, a ddaw i ben yn 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi camu i'r adwy er mwyn sicrhau parhad cymorth ar gyfer camau gweithredu pwysig a oedd yn cael eu hariannu'n flaenorol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn ogystal â chefnogi'r broses o drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)

39. O dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014-2020 cafodd Cymru gyllid gwerth €19.7m gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu £6.2m dros y tair blwyddyn ariannol nesaf (2022-2025) sy'n cyfateb, fwy neu lai, i'r cyllid a ddyrannwyd gan yr EMFF.

40. Mae cynigion cyllido ar gyfer y Môr a Physgodfeydd ar gyfer 2022-23 wrthi'n cael eu datblygu ac mae swyddogion yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y caiff cynllun a fydd yn cyflawni newid cadarnhaol i sector y môr a physgodfeydd ac yn helpu i gyflawni ymrwymiadau yn ein *Rhaglen Lywodraethu* ei gydgynhyrchu.

## Rhaglenni cyllido eraill yr UE

### *Rhaglen Fframwaith Ymchwil ac Arloesi'r UE (FP): FP7, Horizon 2020, Horizon Ewrop.*

<u>Horizon 2020 (rhaglenni'r UE 2014 – 2020)</u>

41. Mae sefydliadau yng Nghymru wedi sicrhau cyfanswm o €150m o Horizon 2020, sef rhaglen ymchwil ac arloesi flaenllaw'r UE, yn ystod cyfnod y rhaglen, sef 2014-2020. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn amcangyfrif bod Cymru wedi colli cyllid Horizon gwerth tua €38m oherwydd ansicrwydd yn gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE.

42. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng perfformiad y DU a pherfformiad yr Almaen. Mae'n cyd-fynd â gwaith dadansoddi a wnaed gan y Gymdeithas Frenhinol ym mis Hydref 2019 a nododd fod ansicrwydd yn dilyn refferendwm yr UE wedi lleihau cyfran flynyddol y DU o gyllid Horizon 2020 bron traean, sy'n cyfateb i bron hanner biliwn Ewro yn 2018, o gymharu â 2015. Mae'r un duedd i'w gweld yng Nghymru.

<u>Horizon Ewrop (rhaglenni'r UE 2021–2027 EU)</u>

43. Mae ymgeiswyr o Gymru yn gymwys dros dro ac mae llawer yn parhau i wneud cais am gyllid Horizon Ewrop. Mae'r UE yn asesu ceisiadau ond ni all lofnodi cytundebau grant cyn i gysylltiad y DU gael ei ffurfioli. Gall ymgeiswyr o'r DU sy'n llwyddiannus ym mhroses yr UE hawlio cyllid gan UKRI (sef yr Asiantaeth Ymchwil ac Arloesi yn y DU). Dywed y DU ei bod yn barod i gysylltu ond mae'r sefyllfa wleidyddol yn atal yr UE rhag ffurfioli'r cysylltiad.

44. Mae'n amlwg bod ansicrwydd ynglŷn â chysylltu'n ffurfiol yn anfanteisiol i gyfranogiad Cymru ond nid oes digon o ddata ar hyn o bryd i amcangyfrif lefel y cyllid y gallai Cymru fod wedi'i golli ers i Horizon Ewrop agor ym mis Ionawr 2021. Mae sgyrsiau â phrifysgolion yn dangos, o lefel isel iawn yn 2020, fod nifer y ceisiadau wedi cynyddu yn 2021 oherwydd yr addewid y byddai'r cysylltiad yn

cael ei ffurfioli, ond mae hyn bellach o dan fygythiad am fod yr oedi yn parhau ynghyd â'r anawsterau gweinyddol cysylltiedig.

45. Mae ymgeiswyr yn wynebu rhwystrau diangen sy'n eu hatal rhag manteisio ar Horizon Ewrop oherwydd diffyg cytundeb ynghylch cysylltu. Mae'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â newid statws o bartner i bartner cyswllt a cheisio cyllid gan UKRI yn sylweddol, yn enwedig ar gyfer rhwydweithiau doethurol.

46. Mae’r sefyllfa wedi cyrraedd pwynt lle mae rhai rhanddeiliaid yn ystyried a fyddai cynllun trydedd wlad sy'n glir ac yn cael ei ariannu a'i weinyddu'n dda yn well opsiwn dros dro na'r ansicrwydd a'r anawsterau gweinyddol presennol. Byddai cynllun o'r fath yn cael ei fabwysiadu tra'n aros i ailymuno â Horizon Ewrop os bydd y DU yn datrys y problemau gwleidyddol.

47. Os na all Llywodraeth y DU lwyddo i gysylltu'n ffurfiol â Horizon, bydd y cyllid a ddyrennir i gysylltiad â Horizon Ewrop yn mynd i raglen Ymchwil a Datblygu amgen yn y DU. Gallai Cymru ddefnyddio'r cyllid hwn a ddyrennir i'r DU ond byddai'r buddiannau yn dibynnu ar y manylion nad ydynt wedi'u nodi eto. Cydnabyddir na ellid dyblygu rhaglen a brandiau amlochrog Horizon Ewrop.

48. Mae'r UE hefyd yn datblygu mentrau newydd na fydd gwariant yn y DU yn gymwys ar eu cyfer, er enghraifft Cronfa Arloesi'r UE, Cronfa Amddiffyn Ewrop, y Gronfa Pontio Teg a Banc Buddsoddi Ewrop.

***Erasmus Plus a rhaglenni sy'n ei ddisodli***

49. Penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â chymryd rhan yn Erasmus+ er i Lywodraeth Cymru ddatgan yn glir y byddai'n well gennym aros yn Erasmus+.

50. Rhwng 2014-20 cafodd Cymru €9.64m y flwyddyn gan Erasmus+, ar gyfartaledd. Yn 2020, cafodd €13.14m. Mae cyllideb Rhaglen newydd Erasmus+ rhwng 2021 a 2027 wedi cynyddu 79%. Gan dybio y byddai cyfran Cymru wedi cynyddu yn gymesur â'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid, byddai Cymru wedi cael tua €17.2m y flwyddyn gan Erasmus+, ar gyfartaledd.

51. Yn lle hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Cynllun Turing ledled y DU i ddisodli rhai elfennau o Erasmus+. Sefydlwyd y cynllun hwn gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae ganddo gyllideb o £110m y flwyddyn, y mae tua £100m ohoni yn gyllid ar gyfer darparwyr. Nid yw'n disodli elfennau staff, ieuenctid na symudedd mewnol Erasmus+ nac yn darparu unrhyw gyllid ar gyfer prosiectau strategol. Yn 2021, cafodd Cymru £5.19m gan Gynllun Turing.

52. Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth swyddogol ar Fwrdd Sicrwydd a Byrddau Asesu Prosiectau Cynllun Turing. Nid oes gennym unrhyw rôl o ran craffu/goruchwylio na gwneud penderfyniadau.

53. Bydd prosiectau o raglen flaenorol Erasmus+ yn gallu parhau tan 2023, sy'n golygu y bydd nifer cyfyngedig o brosiectau yn parhau i gynnig cyfleoedd symudedd. Nid yw gweddill y cyllid o'r €13.14m a ddyrannwyd yn 2020 yn hysbys

ond mae llawer o ddarparwyr wedi nodi na fydd fawr ddim cyllid ar gael gan y prosiectau hyn ar gyfer blwyddyn olaf prosiectau a fydd yn para tan 2023.

54. Cyhoeddwyd Taith, sef rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer dysgu Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2021 a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer y flwyddyn gyllido gyntaf oedd mis Mai 2022. Bydd Taith yn darparu cyfanswm o £65m ar gyfer cyfleoedd symudedd a chydweithio i bob sector addysg yng Nghymru.

***Rhaglen LIFE yr UE***

55. Roedd gan Raglen LIFE yr UE 2014-2022 gyllideb o €3.4 biliwn i gefnogi bioamrywiaeth. Mae Cymru wedi cael £3m y flwyddyn o gyllid LIFE yr UE, ar gyfartaledd, ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2019.

56. Mae'r UE wedi cytuno i barhau i gyllido prosiectau presennol hyd at ddiwedd eu hoes. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys pedwar prosiect presennol yn ogystal â dau brosiect ychwanegol a fu'n llwyddiannus fel rhan o'r gyfran olaf a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sydd wedi cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.

57. O 2021 ymlaen, ni fu unrhyw gyllid newydd ar gael drwy raglen LIFE yr UE. Mae trafodaethau yn parhau drwy grŵp bioamrywiaeth y pedair gwlad ac â Llywodraeth y DU ynghylch opsiynau ar gyfer cynllun i ddisodli rhaglen LIFE yr UE a chyllid. Mae Defra wedi nodi, ar lefel polisi, y byddai angen i unrhyw gynllun newydd o'r fath gael ei ariannu drwy gyfraniadau o grant bloc pob gwlad. Mae materion sy'n cael eu hystyried yn cynnwys a fyddai unrhyw gynllun newydd yn gweithredu ar lefel y DU a/neu ar lefel gwledydd unigol a phwy fyddai'n gweinyddu cynllun o'r fath ar lefel y DU.

58. Mae cynlluniau o'r fath yn hanfodol i barhau i gyflwyno ein rhaglen bioamrywiaeth gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau domestig a rhyngwladol mewn perthynas â'n rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig a thargedau sy'n deillio o COP 15.

***Ewrop Greadigol***

59. O dan raglen Ewrop Greadigol (2014 – 2020), cafodd 15 o sefydliadau gyfanswm o €2,575,369 yn uniongyrchol yng Nghymru i gefnogi'r sectorau diwylliannol, creadigol a chlywedol.

60. Rhoddwyd €1,910,565 yn uniongyrchol i gwmnïau a sefydliadau yng Nghymru drwy raglen Diwylliant, sy'n cyfrif am 6.3% o'r €30 miliwn o gyllid Diwylliant a roddwyd i gyrff ledled y DU. Rhoddwyd €664,804 yn uniongyrchol i gwmnïau a sefydliadau yng Nghymru drwy raglen MEDIA, sy'n cyfrif am 1.48% o'r €45 miliwn o gyllid Diwylliant a roddwyd i gyrff ledled y DU.

61. Dim ond rhan o fuddiannau'r rhaglen oedd y cyllid a gafwyd. Gellir dadlau bod y partneriaethau, yr hyfforddiant a'r marchnadoedd Ewropeaidd yn fwy gwerthfawr.

62. Er inni ddatgan bod yn well gennym barhau i fod yn rhan o Ewrop Greadigol, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â pharhau i gymryd rhan yn y rhaglen ac, yn lle hynny, lansiodd raglen beilot, sef Cronfa Sgrin Fyd-eang y DU (a sefydlwyd gan ddefnyddio'r pwerau cymorth ariannol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU) y llynedd. Dyrannwyd cyllideb o £7m i'r Gronfa ac, o'r cyfanswm hwn, cafodd Cymru tua £300k yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli ar Grŵp Llywio'r Cynllun ond nid ydym yn chwarae unrhyw ran mewn prosesau craffu/goruchwylio na phenderfyniadau.

63. Mae'r rhaglen hon wedi'i hehangu dros y tair blynedd nesaf fel rhan o gefnogaeth y DU i'r diwydiannau creadigol gyda chyllideb neilltuedig o £50m. Nid yw'n hysbys eto faint o'r cyllid hwn a gaiff ei ddyrannu'n uniongyrchol yng Nghymru.

***Cronfeydd eraill yr UE, gan gynnwys Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a phrosiect PEACE***

64. Mae rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) yn werth tua €7.5m y flwyddyn i Gymru. Maent yn cynnwys rhaglen Iwerddon-Cymru a rhaglenni ETC trawswladol a rhyngranbarthol ehangach sy'n darparu atebion i heriau allweddol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau, gan sicrhau mwy na dim ond manteision ariannol i randdeiliaid.

65. Mae Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â chymryd rhan yn rhaglenni ETC 2021-2027 ETC (heblaw PEACE PLUS yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r penderfyniad hwn yn peri risg sylweddol i bartneriaethau pwysig a chyfleoedd economaidd cysylltiedig ar draws Môr Iwerddon, ledled Ewrop a thu hwnt.

66. Er gwaethaf safbwynt Llywodraeth y DU, rydym yn gweithio gyda Llywodraethau Datganoledig eraill i ystyried ffyrdd eraill y gallai ein rhanddeiliaid barhau i gymryd rhan yn rhaglenni ETC 2021-2027 drwy ddarpariaethau ‘Trydedd Wlad’ yn rheoliadau'r UE, ar sail "fesul prosiect" o leiaf.

67. Drwy ei Strategaeth Ryngwladol a'i gwaith ar gydweithredu ar draws Môr Iwerddon, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau â'r partneriaethau hynny, lle y bo'n bosibl, er mwyn cynyddu presenoldeb Cymru ledled y byd a sicrhau ein bod yn fwy cystadleuol, ond cyfyngir ar hyn gan yr her gyllido.

**Manylion asesiad Llywodraeth Cymru y byddai Cymru wedi cael o leiaf £375 miliwn y flwyddyn, petai Cymru a'r DU wedi aros yn y DU.**

68. Mae Pennod 6 o'r Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*[5], yn nodi'r goblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r rhaglenni Ewropeaidd a'r rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi. Mae'r cyfanswm yn cynnwys, ar gyfartaledd dros saith mlynedd, £295 miliwn bob blwyddyn ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ERDF ac ESF, £80 miliwn ar gyfer y rhaglen Datblygu Gwledig a £2 filiwn ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. At hynny, mae partneriaid yng Nghymru yn cael tua €7.5m y flwyddyn o gyllid ERDF drwy gymryd rhan yn y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC). Nid yw'r ffigur o £375m o

[5] DIOGELU DYFODOL CYMRU CYMRAEG (llyw.cymru)

leiaf yn ystyried y cyllid a gollwyd gennym drwy beidio â gallu manteisio ar raglen cyllido eraill yr UE, gan gynnwys Erasmus a Horizon.